Louise Griffiths
Ysgol Gymunedol Cei Newydd
Maes Yr Ysgol
Cei Newydd
Ceredigion
SA45 9TE

01/07/2025

Annwyl Louise Griffiths

**Ymweliad Interim:** Mehefin 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gymunedol Cei Newydd yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'u harolygiad craidd ym mis Mehefin 2023. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad

## Ffocws yr ymweliad

### Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ymateb i adborth a gwella eu gwaith

- Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gynnydd yr ysgol o ran ymateb i adborth a gwella gwaith disgyblion.
- Mae arweinwyr wedi cefnogi datblygiad proffesiynol yn addas drwy gyfleoedd hyfforddiant, a chydweithio ac ymweld ag ysgolion cyfagos. Maent yn casglu barn disgyblion ac yn annog athrawon i dreialu gwahanol weithdrefnau wrth gefnogi disgyblion i ymateb i adborth a gwella eu gwaith.
- Mae staff wedi addasu'r polisi marcio ac mae eu gweithgareddau addysgu a dysgu yn cefnogi'r polisi yn briodol. Mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r polisi a'r cod marcio wrth drafod eu gwaith.

- Yn ddiweddar, mae athrawon yn cynnig adborth bwriadus i ddisgyblion wrth iddynt weithio ac yn holi cwestiynau ymestynnol. Maent wedi datblygu strategaethau sy'n annog disgyblion i fyfyrio ar eu gwaith yn ystod gweithgareddau. O ganlyniad, mae disgyblion yn dechrau ymateb yn briodol i adborth ac yn gwneud gwelliannau buddiol i'w gwaith. Er hyn, nid yw athrawon yn sicrhau cyfleodd digon cyson i'r disgyblion hŷn i wneud addasiadau amserol, yn enwedig wrth iddynt wella eu gwaith ysgrifennu estynedig .

## Ehangu cyfleodd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

- Mae cyfleoedd datblygiad proffesiynol gwerthfawr wedi gwella dealltwriaeth y staff o ddulliau dysgu sydd yn ehangu cyfleodd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.
- Mae athrawon y disgyblion ieuengaf yn cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n hybu annibyniaeth y disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio ystod o weithgareddau bwriadus a diddorol sy'n ennyn diddordeb bron bob disgybl i ganolbwyntio am gyfnodau hir ac ymgolli yn eu dysgu.
- Mae athrawon y disgyblion hŷn yn magu hyder wrth gynnig dewisiadau i'r disgyblion ar sut i gyflwyno eu gwaith. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddewis lefel her eu hunain sy'n cyfyngu ar eu gallu i gymryd cyfrifoldeb pellach dros eu dysgu.
- Mae'r disgyblion ieuengaf yn meithrin medrau rhifedd, llythrennedd, digidol, datrys problemau a chymdeithasol yn llwyddiannus yn eu chwarae. Maent yn cyfrannu syniadau yn hyderus wrth ddilyn trywydd eu dysgu sydd yn dyfnhau eu dealltwriaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos parch naturiol at waith eraill ac yn datblygu i fod yn ddinasyddion annibynnol sy'n cydweithio'n dda.
- Wrth ddatblygu drwy'r ysgol mae disgyblion yn adeiladu ar eu medrau annibynnol yn briodol. Maent yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i ddewis offer a chydweithio wrth arbrofi a datrys problemau. Mae disgyblion yn magu hyder wrth ddilyn polisi'r ysgol o holi cyfoedion cyn oedolyn pan fyddant angen cymorth. Mae cyfrifoldebau dosbarth fel dewiniaid digidol yn cyfrannu at ddatblygu gallu'r disgyblion i fod yn arweinwyr a dysgu oddi wrth ei gilydd yn effeithiol.
- Erbyn brig yr ysgol mae disgyblion yn datblygu medrau annibynnol priodol mewn nifer o agweddau o fywyd ysgol. Mae eu hannibyniaeth wrth ddefnyddio a chymhwyso eu medrau digidol yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau eu brwdfrydedd ac ymglymiad mewn ystod o feysydd ar draws y cwricwlwm

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6672295

Yn gywir



**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol